SUL CYFFREDIN 20

**EXODUS 16:2-15; SALM 105:1-6, 37-45;
PHILIPIAID 1:21-30; MATHEW 20:1-16**

● **Gweddi agoriadol**
Bendithia'r adeg hon o gymdeithasu,
ein calonnau ar agor,
ac emynau'n cael eu canu,
a gweddïau'n cael eu rhannu.
Bendithia gyfarfod ein bywydau,
a'u llenwi â'th dangnefedd,
ac wrth i ni ymadael
bydd di'r fendith a roddwn.

● **Moliant**
Arweinydd: Arglwydd pob moment
Pawb: Bydd gyda ni drwy'r dydd.

Ti yw Arglwydd pob moment
o'n cyfodiad hyd ein gorwedd i lawr,
pob cam o'r daith,
ein cydymaith
yn cerdded wrth ein hochr ar lwybr cyfarwydd.

Arweinydd: Arglwydd pob moment
Pawb: Bydd gyda ni drwy'r dydd.

Ti yw Arglwydd pob moment.
Wrth i ni feddwl a thrafod
mae dy Ysbryd Glân yn ysbrydoli
a'th sibrwd tawel yn arwain,
yn derbyn ein beichiau a chario ein llwyth.

Arweinydd: Arglwydd pob moment
Pawb: Bydd gyda ni drwy'r dydd.

● **Cyffes**
Arglwydd, maddau i ni
os byth y rhown di ar brawf,
pan fo bywyd yn galed
a ninnau ymhell o gartre
neu'r baich yn rhy drwm
i'w gario ein hunain.
Tyn ni atat;
adnewydda ein ffydd
yn yr un sy'n tywys pobl
o'r diffeithwch
a'r dyfroedd garw
i le a addawyd.
Ar ein taith ffydd
gad i ninnau
ddilyn y llwybr hwnnw,
a chanfod yr heddwch
a'r bodlonrwydd
a ddaw yn unig oddi wrthyt ti.

● Diolch

Am bawb sy'n sefyll yn gadarn
pan brofir ffydd
ac sydd heb ofni
cyffesu dy enw
hyd yn oed wrth gael eu herlid,
rhown ddiolch i ti.
Gweddïwn am nerth
os cawn ein hunain
ar y llwybr dreiniog hwnnw.

Am saint ffyddlon pob oes
sy'n datgan gyda Paul,
'Byw yw Crist
a marw sydd elw',
rhown ddiolch i ti.
Bendithia eu haberth
a bendithia'r rheini
y ganed ffydd ynddynt
trwy fod yn eu cwmni.